Canhwyllau

Cysyniadau:	**Derbyn eraill, gwerthfawrogiad, goddefgarwch, rhannu.**
Amcan:	**Dangos cysylltiadau rhwng gwahanol grefyddau.**
Cyfarpar:	**Golau cannwyll. Canhwyllbren Menorah neu Hanukiah os yn bosibl.**

Cyflwyniad:

● Holi'r plant ynglŷn â pha bryd y maen nhw'n gweld canhwyllau wedi'u goleuo. Nadolig. Pen-blwydd. Mewn eglwys neu gapel.

● Mae canhwyllau wedi'u defnyddio ers amser maith gan sawl crefydd. Mae'r Iddewon, yr Hindŵiaid, y Bwdistiaid a Christnogion yn eu defnyddio yn eu haddoliad.

● Mae'r gannwyll yn symbol o oleuni ac o ddaioni.

Gwyliau'r Goleuni

Gwyliau Cristnogol:

Adeg y Nadolig bydd Cristnogion yn goleuo canhwyllau yn symbol o Iesu Goleuni'r Byd. Hefyd, bydd canhwyllau yn cael eu cynnau ar 2 Chwefror sef Gŵyl Fair y Canhwyllau. Dyma'r adeg pan gafodd y baban Iesu ei dderbyn yn y deml gan Simeon. Dywedodd Simeon y geiriau hyn am Iesu: "Rwyt wedi'i roi i'r bobl i gyd; yn olau er mwyn i genhedloedd eraill allu gweld." Luc 2:31–32 beibl.net

Gwyliau Bwdïaidd:

Ar ŵyl Magha Puja, bydd 1250 o ganhwyllau'n cael eu cynnau yn y

temlau i gofio'r adeg pan benderfynodd 1250 o bobl ddilyn dysgeidiaeth Bwda.

Gwyliau Hindŵaidd:
Yn ystod gŵyl Diwali, gŵyl y flwyddyn newydd, bydd Hindŵiaid yn cynnau canhwyllau i groesawu Lakshmi, duwies ffyniant, i'w tai.

Gwyliau Iddewig:
Yn ystod mis Rhagfyr, bydd yr Iddewon yn cynnau canhwyllau yn ystod gŵyl Hanukkah sy'n para am wyth diwrnod.

Stori Hanukkah:

Amser maith yn ôl roedd gan yr Iddewon arweinydd cas a chreulon o'r enw Antiochus. Doedd Antiochus ddim yn gadael i'r Iddewon addoli Duw ac felly aeth ati i ddinistrio eu teml.

Ffyrnigodd hyn yr Iddewon. Daeth criw ohonyn nhw at ei gilydd dan arweiniad Judas Maccabeus, ac ymladd yn erbyn Antiochus a hawlio eu teml yn ôl. Pan aethon nhw i mewn i'r deml gwelsant fod difrod mawr wedi'i wneud. Dyma nhw'n mynd ati i lanhau'r deml drwyddi. Pan aethon nhw ati i gynnau lamp y deml dim ond ychydig iawn o olew oedd ynddi.

Pan gyneuon nhw'r lamp roedden nhw'n disgwyl iddi gynnau am un noson yn unig ond yn wir mi fuo'r lamp yn olau am wyth diwrnod. Penderfynodd Judas Maccabeus fod yn rhaid i'r Iddewon, o hynny ymlaen, gofio am y wyrth hon a dathlu am wyth diwrnod. Yr enw ar yr ŵyl hon ydi Hanukkah.

Yng nghartrefi'r Iddewon, mae canhwyllbren fawr, y Menorah neu'r Hanukiah, yn cael ei rhoi ar sil y ffenestr er mwyn i bawb gael gweld golau'r canhwyllau. Mae gan y Menorah naw braich a channwyll ar bob un braich. Gyda'r nos pan fydd y canhwyllau yn cael eu goleuo bydd y teulu cyfan yn gweddïo. Mae'r Iddewon yn diolch i Dduw am eu gwarchod a'u cadw'n ddiogel.

Bydd y plant wrth eu boddau yn ystod yr ŵyl hon. Pam tybed? Wel, fe fyddan nhw'n bwyta bwydydd arbennig ac yn cael anrhegion ar bob un o'r wyth diwrnod. Does dim rhyfedd bod y plant yn hapus!

Emyn: Goleuni y byd: Canu Clod 196

Dyfyniad o'r Beibl:
Dywedodd Iesu, "Fi ydy golau'r byd." Ioan 8:12 beibl.net

Munud i feddwl:
Boed i gariad a goleuni lenwi'ch tŷ a'ch calon yn ystod Gŵyl Hanukkah.

Myfyrdod/Gweddi:
Diolch am gael gwybod sut mae pobl eraill yn addoli. Mae'n bwysig ein bod yn dysgu mwy am grefyddau eraill er mwyn i ni ddod i'w deall ac o'u deall i ddysgu cyd-fyw. Diolch. Amen.